SFJPG1

# Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol a thechnegol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer unigolion sy'n darparu cyngor ac arweiniad arbenigol a thechnegol i bobl eraill ar faterion technegol yn gysylltiedig â gwaith, yn unol â gofynion a gweithdrefnau sefydliadol. Bydd disgwyl i chi ddarparu cyngor ac arweiniad technegol arbenigol i bobl eraill a allai fod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac i gydweithwyr a rhanddeiliaid. Bydd gofyn i chi nodi cyfleoedd addas ar gyfer cynnig cyngor ac arweiniad technegol arbenigol ac adolygu eich dulliau'n rheolaidd, er mwyn i chi allu addasu'ch dull pan fydd angen.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal eich gwybodaeth a'ch cymhwysedd o ran llysoedd a thribiwnlysoedd 2. bod yn ymwybodol o'r ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad sydd ar gael 3. dadansoddi a dehongli ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad 4. cyflwyno gwybodaeth ac arweiniad i bobl eraill 5. cynnal asesiad risg i nodi atebion 6. defnyddio'r adnoddau, yr arweiniad polisi a'r ddeddfwriaeth briodol i ddatrys problemau wrth iddynt godi 7. rhagweld problemau, a chymryd camau priodol i ddelio â nhw, yn unol â gofynion sefydliadol 8. rhoi gwybodaeth ddilys a chyfoes, cyngor ac arweiniad arbenigol a thechnegol i gydweithwyr a rhanddeiliaid, yn unol â'u hanghenion a'u gofynion sefydliadol 9. cadarnhau bod y wybodaeth a dderbynnir yn bodloni anghenion yr unigolion 10. cyfeirio unigolion at ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill pan fydd angen 11. ymchwilio i gŵynion, yn unol â gofynion sefydliadol 12. ymateb i gŵynion, yn unol â gofynion sefydliadol 13. cymryd camau i ddatrys neu fynd i'r afael â chwynion, yn unol â gofynion sefydliadol 14. dewis y dull cyfathrebu priodol wrth ddarparu cyngor arbenigol a thechnegol 15. hyfforddi cydweithwyr a darparu cymorth i'w helpu i gynnal eu gwybodaeth a'u cymhwysedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch cymhwysedd, ac i bwy i ofyn am gymorth a chyngor pan fydd angen 2. deddfwriaeth, arweiniad a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i rôl y swydd 3. amrywiaeth y wybodaeth a sut i ddarparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau 4. sut i ddehongli gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau y gellir ei defnyddio wrth roi cyngor ac arweiniad arbenigol/technegol 5. sut i nodi cyfleoedd ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol/technegol 6. sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer darparu cyngor ac arweiniad arbenigol/technegol 7. sut i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfoes, yn ddilys ac yn ddibynadwy 8. sut i rannu eich gwybodaeth a'ch profiad gyda phobl eraill 9. y technegau y gellir eu defnyddio ar gyfer darparu neu gyflwyno cyngor ac arweiniad arbenigol/technegol 10. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a sut i wneud hyn 11. systemau a gweithdrefnau cwyno 12. dulliau cyfathrebu a sut i'w haddasu i fodloni anghenion unigol

SFJPG1

Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol a thechnegol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJPG1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Llysoedd |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | Cyngor arbenigol, amgylchedd llys, technegau cyngor ac arweiniad |